RHESTR TESTUNAU

# EISTEDDFOD GADEIRIOL

# TREUDDYN

**1863-1952, 1975-2019, 2023….**

** Gwobr £100 **
Perfformiad mwyaf addawol
* Cerdd
* Llefaru
* Offerynol

## NEUADD YR YSGOL
## DYDD SADWRN,
## 10fed. o HYDREF 2026

Drysau'n agor am 11.30y.b.
**Yr Eisteddfod i gychwyn am 12.00 yp(dan 5 i flwyddyn 6)**
**ac am 6 o'r gloch y.h. (dros 11oed)**

Mynediad: Oedolyn Pnawn £3, Nos £5 (Tocyn Dydd a Nos £6), Plant Ysgol am Ddim

## BEIRNIAID

**CERDD, OFFERYNNOL, ALAW WERIN, CERDD DANT, EMYN DÔN**

Ann Davies, Ruthin

**LLEFARU**

Haf Evans, Henllan, Dinbych

**LLÊN A LLÊN IEUENCTID**

Marc Lloyd Jones, Yr Wyddgrug

**ARLUNIO, CREADIGOL A LLAWYSGRIFEN**

Doug a Rhiannon Jones, Bwcle

## CYFEILYDDION

**Lowri Hogg, Yr Wyddgrug**
**Christopher Enston, Treuddyn**

## CYFEILYDD CERDD DANT (ar y piano)

Christopher Enston, Treuddyn

## ARWEINYDDION

Nia Connah, Yr Wyddgrug; Bronwen Hughes, Yr Wyddgrug
Ioan Rhys Jones, Yr Wyddgrug; Traddodi'r Cadeirio Hywel Wyn Edwards, Sychdyn.

## MANYLION CYSYLLTU

MRS. BETHAN WYN JONES,
D/o YSGOL TERRIG, FFORDD Y LLAN, TREUDDYN CH7 4NL
**01352 758162**
MRS HELEN ROBERTS 07508 705985
eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com

1. **BYDD CYSTADLAETHAU LLÊN 1 – 8 A CHYFANSODDI EMYN DÔN YN AGORED I BOB OEDRAN, YN ÔL YR ARFER.**

2. **GWOBRWYO SÊR EISTEDDFOD TREUDDYN 2026**
   **CYNIGIR GWOBRAU YCHWANEGOL I'R RHAI A NODIR YN Y RHESTR TESTUNAU, AM Y PERFFORMIADAU LLWYFAN MWYAF ARBENNIG :**
   **£100 I'R ADRAN GERDD A CHERDD DANT**
   **£100 I'R ADRAN LLEFARU**
   **£100 I'R ADRAN OFFERYNNOL**
   ***Sylwer ar RHEOL CYSTADLU 02 isod.**

3. **PRIS MYNEDIAD CÔR £30.00 (sieciau'n daladwy i Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn) erbyn 26.09.26.**
   **Ar ôl derbyn enwau'r corau gyda'r nifer o gantorion ymhob côr – erbyn 26.09.26 – anfonir tocynnau i'r arweinydd / person cyswllt i'w dosbarthu i aelodau'r côr i'w dangos wrth ddrws mynediad i'r Eisteddfod.**

## RHEOLAU CYSTADLU

1. **RHAID bod yn yr oedran priodol ar yr 31ain o Awst 2026.**
2. **Bydd dyfarniad y BEIRNIAD yn derfynol a bydd gan y beirniad yr hawl i rannu, leihau neu atal gwobr.**
3. **RHAID i ymgeiswyr y cystadlaethau hunan-ddewisiad sicrhau bod copi i'r beirniad a'r cyfeilydd. Bydd gan y cyfeilydd yr hawl i wrthod cyfeilio os nad yw wedi derbyn y copi bythefnos o flaenllaw, h.y. ERBYN DYDD SADWRN y 26ain. o Fedi 2026.**

   **CYFEILYDD : Bydd rhyddid i blant blwyddyn 6 ac iau, unigol, partion, offerynnol a chorau, ddod â'u cyfeilyddion eu hunain.**

******* Mae gwneud copi o gerddoriaeth/ o lenyddiaeth / o ryddiaeth argraffedig dan hawlfraint yn anghyfreithlon. *******

4. **LLEFARU I DDYSGWYR**
   **(Adran Adrodd rhif 5, 6, 9, 12 ac 13)**
   **Cystadleuaeth sydd yn agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r iaith Gymraeg fel oedolyn ac i ddisgyblion ysgol nad ydynt wedi derbyn addysg gyfrwng Gymraeg.**
5. **OS YDYCH YN POSTIO CEISIADAU DYLID CYNNWYS AMLEN O'R MAINT CYWIR GYDA STAMP O'R GWERTH CYWIR I'W ANFON AT YSGOL TERRIG I BWRPAS DYCHWELYD Y CYFANSODDIADAU ERBYN DIWEDD MIS TACHWEDD 2026 AR ÔL YR EISTEDDFOD. NI ELLIR DYCHWELYD GWAITH NA GWOBRAU OS NAD OES FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD GAN YR YSGRIFENYDDES. OS YN YMGEISIO DRWY EBOST RHAID SICRHAU FOD ENW A FFUG ENW YN CAEL EI GYNNWYS, BYDD YR EISTEDDFOD YN ANFON CEISIADAU YMLAEN YN ANHYSBYS.**
6. **Cynhelir cystadlaethau blwyddyn 6 a iau yng nghyfarfod y prynhawn.**
7. **Bydd rhagbrawf dros 11oed a than 15 oed yn unig os bydd angen**
8. **Cymraeg fydd iaith y llwyfan.**
9. **Bydd gan y pwyllgor hawl i newid y trefniadau fel bo gofyn.**
10. **Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain neu golled a all ddigwydd mewn cysylltiad â'r Eisteddfod.**

11. **Rhoddir beirniadaeth ar y TRI darn o waith llenyddol sydd wedi dod i'r brig yn unig.**

12. **RHAID i'r CYFANSODDIADAU LLÊN a'r EMYN DÔN ddod i law erbyn DYDD LLUN 14eg. o FEDI 2026 yn DDI-FFAEL. Ni sicrheir beirniadu gwaith ar ôl y dyddiad hwn.**

13. **Cymraeg fydd iaith y cyfansoddiadau LLENYDDOL**

**(A) LLÊN 1 – 11 (oedolion a ieuenctid) – i law : YSGOL TERRIG, FFORDD Y LLAN, TREUDDYN, SIR Y FFLINT CH7 4LN neu drwy ebost at eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com ERBYN Dydd Llun 14 o Fedi 2026 gan gynnwys FFUGENW, ENW A MANYLION CYSYLLTU pob cystadleuydd. (bydd yr Eisteddfod yn anfon ceisiadau ymlaen yn anhysbys i'r beirniad).**

**(B) GWAITH ARLUNIO, CREADIGOL A LLAWYSGRIFEN i law YSGOL TERRIG, FFORDD Y LLAN, TREUDDYN erbyn Dydd Llun 28 o Fedi 2026 FAN BELLAF gan sicrhau fod OEDRAN (h.y. blwyddyn ysgol) FFUGENW, ENW A MANYLION CYSYLLTU AR Y CEFN.**

**SYLWER : Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am ddychwelyd gwaith yn Adran (B) i'r ymgeiswyr. Bydd angen casglu'r gwaith o Ysgol Terrig cyn diwedd mis Tachwedd 2026.**

**(C) EMYN DÔN – i law :** Ann Davies, Hafan, Pen y Maes, Rhuthun, LL15 1DD. **ERBYN Dydd Llun 14eg. o Fedi, 2026. FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes, neu drwy ebost at eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com**

## CYSTADLEUAETH CYFANSODDI TÔN ADDAS…

**… i'r geiriau isod o waith John Meurig Edwards, Aberhonddu**

**(Rhoddir copi o'r alaw fuddugol i'r bardd).**

1. Mewn byd mor ansefydlog,
Dy gymorth rho i ni;
Gad i ni brofi bendith
A rhin dy gariad Di;
Pan lethir ni gan ofn a braw
O, dal ni'n gadarn yn dy law.

2. Weithiau, pan fydd rhyw gweryl
Yn rhoddi i ni loes
A chyfaill yn ein brifo
Drwy weithred neu air croes,
Os siom a dicter i ni ddaw,
Rho i ni'r nerth i ysgwyd llaw.

3. Dysg ni i werthfawrogi'r
Amrywiaeth sy'n ein gwlad,
I barchu ein cyd-ddynion
A byw mewn hedd, O Dad
Gwna ni 'n oddefgar o bob un,
A'n galluogi i fyw'n gytûn.

4. Dilea bob gelyniaeth
Rhwng holl genhedloedd byd;
Boed heddwch rhwng y gwledydd,
Dysg i ni fyw ynghyd
Heb ragfarn na chenfigen cas;
Ar ein hymdrechion rho dy ras.

5. Na fydded geiriau chwerw
Dialedd yn ein cri;
Rho hadau goddefgarwch
Yn ein calonnau ni;
I leddfu'r loes a gwella'r briw
Dy gymorth rho I ni, O Dduw.

John Meurig Edwards, Aberhonddu

**MAE'N RHAID I ENWAU'R CYSTADLEUWYR LLWYFAN DDOD I LAW WYTHNOS CYN YR EISTEDDFOD ERBYN Y 3ydd. o HYDREF 2026.**

# LLEFARU

**1. Dan 5 oed :**

Dos i'th wely gwyn gwyn gwyn.
Cau dy lygaid yn dynn dynn dynn.
Agor y ffenestr, nid dy geg
Rhag ofn i ti lyncu'r tylwyth teg.

*Medal a £5.00 i'w rannu*

**2. Llefaru Blwyddyn 1 a 2 : Superman, Sandra Anne Morris Penillion 1, 3 a 4 Arwyr, Gol: Myrddin ap Dafydd, Gwasg Carreg Gwalch**

*Medal a £5.00 i'w rannu*

**3. Llefaru Blwyddyn 3 a 4: HUNANDDEWISIAD** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**4. Llefaru Blwyddyn 5 a 6: HUNANDDEWISIAD** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**5. Dysgwyr Blwyddyn 4 ac is : HUNANDDEWISIAD**

*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**6. Dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 :**

**HUNANDDEWISIAD**

*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**7. Parti dan 11 oed (llai na 100 yng CA2): HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*

**8. Parti dan 11 oed (mwy na 100 yng CA2):**

**HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*

**9. Parti Dysgwyr dan 11 oed: HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*

**10. Dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**

*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*

**11. Dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD**

*Tlws a £25.00; £15.00*

**12. Dysgwyr dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**

*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*

**13. Dysgwyr dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD**

*Tlws a £25.00; £15.00*

**14. Llefaru neu fonolog Oed 16 - 25 (hyd at 5 munud)**

Tlws a *£25.00; £15.00*

**15. Parti cydadrodd agored HUNANDDEWISIAD (hyd at 5 munud)**

Tlws a *£30.00; £20.00*

# OFFERYNNOL

**[pob cystadleuaeth : HUNANDDEWISIAD]**

1. **Unawd piano dan 11 oed** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
2. **Unawd offerynnol (ag eithrio piano) dan 11oed** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
3. **Unawd piano dros 11 oed a than 15 oed** *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
4. **Unawd offerynnol [ag eithrio piano] dros 11 a than 15oed** *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
5. **Unawd piano dros 15 a than 21 oed (hyd at 7 munud)** *Tlws a £25.00; £15.00*
6. **Unawd offerynnol [ag eithrio piano] dros 15 a than 21oed (hyd at 7 munud)** *Tlws a £25.00; £15.00*
7. **Deuawd piano neu offerynnol dan 21 oed** *Tlysau a £30.00; £15.00*
8. **Unawd piano neu offerynnol agored (heb fod dros 7 munud)** *£25.00; £15.00*

# CERDD

1. **Unawd dan 5 oed : JAC CODI BAW**
   **Falyri Jenkins, Caneuon Codi Bawd a Dweud Helo, Y Lolfa**
   *Medal a £5.00 i'w rannu*
2. **Unawd Blwyddyn 1 a 2 : DAW HYFRYD FIS**
   **Llyfr Caneuon i Blant, Chester Music**
   *Medal a £5.00 i'w rannu*
3. **Unawd Blwyddyn 3 a 4 : HEB SIW NA MIW Pennill 1 a 3**
   **O Ris i Ris, E Olwen Jones, Y Lolfa**
   *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
4. **Unawd Blwyddyn 5 a 6 : NOS DA NAWR,**
   **Geiriau Dyfan Roberts, Cerddoriaeth Catrin Edwrds, Trefn. Ann Hopcyn, Sain**
   *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
5. **Parti Unsain dan 11 oed (ysgolion llai na 100 yng CA2):**
   **HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*
6. **Parti Unsain dan 11 oed (ysgolion mwy na 100 yng CA2)**
   **HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*
7. **Unawd dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**
   *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
8. **Unawd dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD**
   *Tlws a £25.00; £15.00*
9. **Deuawd dan 21 oed : HUNANDDEWISIAD**
   *Tlysau a £30.00; £15.00*
10. **Unawd agored : HUNANDDEWISIAD** *£25.00; £15.00*
11. **Unawd digyfeiliant agored : HUNANDDEWISIAD** *£25.00; £15.00*
12. **Côr agored heb fod llai nag 20 o leisiau, heb fod yn hwy na 10 munud, i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro** *£100.00*

# CERDD DANT

**[pob cystadleuaeth – hunanddewisiad]**

**Y CYSTADLEUWYR I SICRHAU COPI I'R CYFEILYDD YN Y CYWEIRNOD CYWIR**

1. **Unawd dan 11 oed :** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
2. **Unawd dros 11 a than 15 oed :** *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
3. **Unawd dros 15 a than 21 oed :** *Tlws a £25.00; £15.00*
4. **Unawd Agored :** *£25.00; £15.00*

**PWYSIG !**
**Gweler Rheolau Cystadlu: RHEOL 03**

**RHAID i'r Cyfeilydd dderbyn copïau o'r caneuon a ddewisir gan y cystadleuwyr ar gyfer cystadlaethau 4-10. Anfoner y rhain at:**
**Christopher Enston,**
**Hillgrove, Ffordd Corwen, Treuddyn,**
**Yr Wyddgrug, CH7 4LD erbyn**

**Dydd Sadwrn yr 26ain. o Fedi, 2026.**




# EMYN DÔN

**Cystadleuaeth cyfansoddi tôn addas i'r geiriau (Gweler Tudalen 3, Adran 10 (C)) o waith John Meurig Edwards, Aberhonddu** *£12.00; £8.00*

# ARLUNIO

| | | |
|---|---|---|
| 1. **Dan 5 oed :** | **Ein tŷ ni** | *£5.00 i'w rannu* |
| 2. **Blwyddyn 1 a 2 :** | **Enfys** | *£5.00 i'w rannu* |
| 3. **Blwyddyn 3 a 4 :** | **Haul** | *£10.00 i'w rannu* |
| 4. **Blwyddyn 5 a 6 :** | **Dydd a Nos** | *£10.00 i'w rannu* |
| 5. **Dros 11 a than 18 oed:** | **Moel Famau.** | *£10.00 i'w rannu* |

# CREADIGOL

| | | |
|---|---|---|
| 1. **Blwyddyn 4 ac is :** | **Celf yn defnyddio bocs wyau** | *£10.00 i'w rannu* |
| 2. **Blwyddyn 5 a 6 :** | **Arddurno Pot Blodau** | *£10.00 i'w rannu* |
| 3. **Dros 11 a than 18 oed:** | **Cyflwyniad Hydrefol** | *£10.00 i'w rannu* |

## LLAWYSGRIFEN

| | | |
|---|---|---|
| 1. **Blwyddyn 4 ac is :** | **Pegi Ban a aeth i olchi (1 Pennill )** | *£10.00 i'w rannu* |
| 2. **Blwyddyn 5 a 6 :** | **Pegi Ban a aeth i olchi (3 Pennill)** | *£10.00 i'w rannu* |

## LLÊN

**01 – 08 : OED AGORED**

**09 – 11 : LLÊN IEUENCTID**

**Gweler Rheolau Cystadlu : RHEOL 10(A) tudalen 3**

**Cystadlaethau 01 – 11 (ieuenctid ac oedolion) drwy ebost**

**eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com neu post**

D/o YSGOL TERRIG, FFORDD Y LLAN, TREUDDYN CH7 4NL

**ERBYN DYDD LLUN y 14eg o Fedi 2025**

1. **CYSTADLEUAETH Y GADAIR (Un gerdd, casgliad o gerddi neu ddilyniant, caeth neu rydd, heb fod dros 150 llinell)** **DARLUN / DARLUNIAU** *£50.00*
*model o gadair o waith Mr. John Parry, Penrhyndeudraeth.*
2. **ENGLYN** **TON / TONNAU** *£10.00; £5.00*
3. **DYCHANGERDD / CERDD DDONIOL**
**CARAFAN** *£10.00; £5.00*
4. **EMYN** **GODDEFGARWCH** *£10.00;*
Bydd geiriau'r enillydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y gystadleuaeth emyn don 2027
5. **TELYNEG** **AWEL / AWELON** *£10.00; £5.00*
6. **STORI FER** **DYLETSWYDD** *£25*
7. **LIMRIG** **UN NOSON AR ÔL 'STEDDFOD TREUDDYN .......** *£10.00; £5.00*
8. **3 PENNILL TELYN / TRIBAN** **BEDDARGRAFF PRIFATHRO** *£10.00; £5.00*

## LLÊN IEUENCTID

9. **Ysgol Gynradd hyd at Bl. 6**
**FFRIND / FFRINDIAU** *£5.00; £3.00; £2.00*
10. **Ysgol Uwchradd Bl. 7 – Bl. 10**
**CUDDIO** *£7.00; £5.00; £3.00*
11. **15 - 19 oed DAU DDARN O WAITH YSGRIFENEDIG** *£10.00; £5.00*




MAE'N RHAID I ENWAU'R CYSTADLEUWYR LLWYFAN DDOD I LAW WYTHNOS CYN YR EISTEDDFOD ERBYN Y 3ydd o HYDREF 2026

## Eich Siop Fferm Leol

Cownter cig, peis, pastai a chacennau cartref blasus, bwyd a diodydd. **Cynnych Lleol o ansawdd da**
www.swansfarmshop.com

## Peiriant Llaeth Ysgytlaeth a Hufen Iâ

**Cynhyrchwyd gan wartheg**
**Fferm Carreg-y-Llech, Treuddyn CH7 4NZ**


## Eich Cyngor Cymuned Leol

Yn falch i gefnogi'r Eisteddfod a chynnal diwylliant Cymreig Treuddyn.

www.treuddyn.org

**Tafarn a'i Chalon yn y Gymuned**
Bwyd a diod da a chwmni difyr.

www.cross-keys.co.uk



## 'Corner Garage' Treuddyn



**Gwasanaeth Garej Dibynadwy ar gyfer eich anghenion moduro 01352 770286**

## *Bwythyn Gwyliau Talwrn Glas*

Lle gwych i deulu / ffrindiau aros wrth ymweld â'r ardal. Llecyn tawel gyda golygfeydd eang. Yn cysgu 5 person.

Diolch i gefnogwyr Eisteddfod 2025

**Tesco/Groundwork**
**Ymddiriedolaeth D Tecwyn Lloyd**
**Cyngor Cymuned Treuddyn**
**Cist Gymunedol Sir y Fflint (Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Gwirfoddol Sir y Fflint)**
**Ymddiriedolaeth Pantyfedwen**
**Cymdeithas Wil Bryan**
**Cronfa Elw Parc Jones**

## Cefnogwch yr Eisteddfod Hysbysebwch yma flwyddyn nesaf

**Ebostiwch**
**eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com**